# Hysbysiad Preifatrwydd Digwyddiadau

Mae'r Hysbysiad hwn ar gyfer pobl sydd wedi cael gwahoddiad i, neu sy'n mynychu digwyddiadau Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (PGW) sydd ar agor i'r cyhoedd.

Gweler y rhestr cynnwys isod ar gyfer y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ym mhob adran o'r Hysbysiad Preifatrwydd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am yr Hysbysiad hwn, neu unrhyw ymholiadau neu sylwadau am y prosesu a ddisgrifir yn yr Hysbysiad hwn, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data (SDD) PGW:

E-bost: dpo@glyndwr.ac.uk Ffôn: 01978 01979 293995 Cyfeiriad: Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam LL11 2AW

Yn yr Hysbysiad hwn, mae "PGW", "ni" ac "ein" yn cyfeirio at Brifysgol Glyndŵr.

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad
2. Sut mae eich data personol yn cael ei gasglu
3. Pa gategorïau o ddata personol sy'n cael eu casglu
4. Sut ydym yn dal eich data
5. Y sail gyfreithiol dros brosesu eich data a sut ydym yn defnyddio'r data hwnnw
6. Categorïau arbennig o ddata
7. Trosglwyddiadau data rhyngwladol
8. Pa mor hir ydym ni'n cadw eich data?
9. Eich hawliau

   Atodiad 1: Rhestr o gronfeydd data


## 1. Cyflwyniad

O ganlyniad i'ch ymgysylltiad â PGW byddwn yn dal eich "data personol" h.y. gwybodaeth ar ffurf sy'n eich adnabod chi fel unigolyn [a elwir yn aml yn "ddata" yn yr hysbysiad hwn]. PGW yw rheolydd data'r wybodaeth y mae'n ei chasglu a'i phrosesu fel y disgrifir yn yr Hysbysiad hwn. Mae hyn yn golygu bod ganddi'r cyfrifoldeb cyfreithiol craidd i ddiogelu'r wybodaeth a sicrhau ei bod yn cael ei phrosesu'n gyfreithlon. Amlinellir y gyfraith yn Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (a elwir yn "GDPR y DU") a Deddf Diogelu Data 2018. Yn benodol, mae'n rhaid i WGU:

- Cymryd camau i sicrhau fod y data y mae'n prosesu yn fanwl gywir ac yn gyfredol;
- Rhoi gwybodaeth glir i chi ynglŷn â sut mae'n prosesu eich data, mewn un neu fwy Hysbysiad Preifatrwydd fel hwn;
- Prosesu eich data at ddibenion penodol yn unig a ddisgrifir i chi mewn Hysbysiad Preifatrwydd, a dim ond rhannu eich data â thrydydd partïon fel y darperir ar ei gyfer mewn Hysbysiad Preifatrwydd;
- Cadw eich data yn ddiogel.

**Nodir gwybodaeth am eich hawliau diogelu data fel gwrthrych data yn adran 9 o'r Hysbysiad hwn.**

## 2. Sut caiff eich data personol ei gasglu

Mae PGW yn casglu eich data personol o'r ffynonellau canlynol:

- Ffurflenni wedi'u cwblhau mewn perthynas â mynychu neu gymryd rhan mewn digwyddiad, gan gynnwys prynu neu gofrestru ar gyfer tocynnau ar-lein;

- Mynychu neu gymryd rhan mewn digwyddiad, er enghraifft, graddio, cyrsiau, llogi ystafell ddigwyddiadau neu gaeau chwarae ar y safle;
- Rhyngweithio ag un o'n cynrychiolwyr neu gyflogeion yn ystod digwyddiad, er enghraifft pan fyddwch yn cofrestru ar restr bostio neu'n cystadlu mewn cystadleuaeth;
- Cyfathrebu â ni drwy'r post, e-bost, sgwrs ar-lein, y cyfryngau cymdeithasol, dros y ffôn neu fformat arall;
- Ymweld â gwefan PGW gan gynnwys pan fyddwch yn chwilio, cofrestru neu ddefnyddio pyrth ar-lein neu'n cofrestru ar gyfer digwyddiad;
- Fel myfyriwr sy'n gymwys i gael gwahoddiad i seremoni raddio.

### 3. Pa gategorïau o ddata personol sy'n cael eu casglu

Rydym yn casglu'r categorïau canlynol o ddata personol:

Eich hunaniaeth, cefndir a manylion cyswllt

- Gwybodaeth fywgraffiadol megis eich enw, teitl, rhyw a dyddiad geni;
- Eich delwedd, eich sain a'ch llun (fel y daliwyd ar weminar, mewn ffotograffau neu ar recordiadau a wnawn o'r digwyddiad, ac ar gamerâu CCTV lle cynhelir y digwyddiad yn ein hadeiladau);
- Eich manylion cyswllt gan gynnwys cyfeiriad gwaith a/neu gartref, cyfeiriad e-bost, sgwrs ar-lein neu fanylion cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a rhif ffôn;
- Eich cymwysterau, profiad proffesiynol a sefydliad neu gyflogwr (os yw hynny'n berthnasol i'r digwyddiad);
- Eich clybiau neu gymdeithasau myfyrwyr, ymlyniadau a chysylltiadau eraill gyda PGW (er enghraifft, os yw'n berthnasol i Ddigwyddiadau Cyn-fyfyrwyr);
- Gwybodaeth am eich ysgol, cefndir addysgol, a gwybodaeth ariannol eich teulu (megis incwm y teulu) lle mae hyn yn berthnasol ar gyfer dewis cyfranogwyr ar gyfer digwyddiad a phenderfynu a ydych chi'n gymwys i gymryd rhan mewn digwyddiadau penodol

Ar-lein a thrafodaethol

- Manylion am eich cyfeiriad IP, math o borwr a'ch system weithredu pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan;
- Digwyddiadau a fuoch iddynt yn y gorffennol neu yr ydych wedi'ch cofrestru ar eu cyfer yn y dyfodol;
- Manylion talu a'ch trafodion ariannol mewn perthynas â digwyddiadau;
- Cofnodion o gyfathrebu a anfonwyd atoch chi gan y Brifysgol neu a dderbyniwyd gennych chi.

Efallai y byddwn hefyd yn casglu'r categorïau arbennig canlynol o ddata personol os yw'n angenrheidiol at y dibenion a amlinellir yn yr Hysbysiad hwn:

- Gwybodaeth ynglŷn â'ch iechyd a chyflyrau meddygol (h.y. anableddau ac anghenion dietegol);
- Rhif aelodaeth undeb llafur er enghraifft, lle mae aelodaeth yn rhoi mynediad i chi i ddigwyddiad neu ostyngiad ar ddigwyddiad;
- Gweithredoedd troseddol sy'n cael eu dal ar ein camerâu ar y Corff neu CCTV; ac
- Gwybodaeth ynglŷn ag amrywiaeth - h.y. eich tarddiad hiliol neu ethnig, crefydd neu gredoau tebyg a'ch cyfeiriadedd rhywiol.

Tynnu lluniau neu ffilmio yn ein digwyddiadau

Rydym yn aml yn tynnu lluniau neu'n ffilmio mewn digwyddiadau yr ydym yn eu cynnal, fel y gallwn ddefnyddio'r deunydd at ddibenion marchnata a allai gynnwys arddangos a dosbarthu'r delweddau yn gyhoeddus. Os ydym yn recordio delweddau ohonoch yn un o'n digwyddiadau, gellir defnyddio'r delweddau hyn yn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:

- Prosbectysau a deunydd hyrwyddo eraill y brifysgol.
- Fel rhan o hysbyseb neu nodwedd hysbysebu (a allai gynnwys defnydd o gyfryngau awyr agored megis bysiau a byrddau poster)
- Ar ein gwefan neu'r rhyngrwyd
- Mewn fideos hyrwyddo sy'n cael eu creu gan y brifysgol

Os ydych yn mynd i un o'n digwyddiadau ac nad ydych yn dymuno i'ch delwedd gael ei ddefnyddio gallwch yn syml ofyn i ni beidio â'i defnyddio. Dylech roi gwybod i'r ffotograffydd neu aelod o staff. Fe'ch cynghorir hefyd i geisio cadw allan o unrhyw luniau sy'n cael eu tynnu neu ffilmio, gan y gallwch ymddangos yn y cefndir mewn camgymeriad.

Cedwir y wybodaeth hon yng nghronfeydd data'r Brifysgol ac fe'i cyfyngir i'r rhai sydd â chaniatâd i edrych ar y cronfeydd data hyn. Mewn rhai amgylchiadau, gall data personol gael ei fewnbynnu i Systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid.

Graddio

Mae gwybodaeth yn cael ei chasglu a'i phrosesu mewn ffyrdd gwahanol at ddibenion graddio. Mae'r adran hon ar gyfer myfyrwyr PGW yn unig.

Mae'n angenrheidiol i'r Brifysgol brosesu eich data personol er mwyn sicrhau:

- Eich bod yn cael gwahoddiad i'ch seremoni raddio;
- Eich bod yn gallu archebu tocynnau;
- Bod eich enw yn ymddangos ar raglen y seremoni Raddio;
- Eich bod yn cael cyfle i roi adborth ar eich profiad graddio; ac
- Ein bod yn gallu ymateb i unrhyw gwestiynau sydd gennych mewn perthynas â'ch seremoni, ac anfon eich ymholiadau at adran arall os nad yw'n gysylltiedig â graddio

Rydym yn casglu data o'ch cofnod myfyriwr sy'n cael ei ddal ar gronfa ddata'r Brifysgol Mae hyn yn cynnwys eich enw, cyfeiriad e-bost, rhif adnabod myfyriwr a gwybodaeth atodol ychwanegol a rowch i ni wrth dderbyn eich gwahoddiad graddio. Pa un a ydych yn mynychu seremoni ai peidio, bydd eich enw, eich maes pwnc a theitl eich gwobr (nid dosbarthiad) yn cael eu cynnwys yn rhaglen seremoni raddio'r Brifysgol. Mae enwau graddedigion hefyd yn cael eu cyhoeddi mewn papur newydd lleol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw gael ei argraffu yn rhaglen y seremoni neu yn y papur newydd lleol, ewch i https://glyndwr.ac.uk/graduation/ i lawrlwytho a llenwi ffurflen "Cais i atal manylion personol rhag cael eu cyhoeddi". Bydd angen i'r ffurflen hon gael ei llenwi a'i dychwelyd drwy e-bost i graduation@glyndwr.ac.uk erbyn y dyddiad cau i gofrestru.

Os byddwch yn mynd i'ch seremoni raddio, bydd eich enw a theitl eich gwobr yn cael eu cyhoeddi yn union cyn i chi groesi'r llwyfan.

Os ydych chi'n ennill gwobr, gallwn gyhoeddi'r manylion yn rhaglen y seremoni Raddio a bydd rhaid i ni hefyd roi gwybod i roddwr/noddwr y wobr.

Mae pob seremoni yn cael ei darlledu'n fyw ar wefan PGW trwy YouTube a byddant yn aros ar YouTube am byth (nid yw hyn yn effeithio ar eich hawliau fel y nodir yn adran 9). Byddwn yn tynnu lluniau ac yn ffilmio'r darpar-raddedigion a'u gwesteion yn ystod y seremoni raddio. Os oes unrhyw westeion nad ydynt yn dymuno cael eu ffilmio neu dynnu eu llun yn ystod y seremoni, cysylltwch â graduation@glyndwr.ac.uk cyn y dyddiad cau i ofyn am hyn. Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i'ch gwesteion y byddant yn cael eu ffilmio ac y bydd yn cael ei ffrydio'n fyw ar YouTube.

Unwaith y byddwch wedi cyflawni eich gwobr (os mai Prifysgol Glyndŵr sy'n darparu'r wobr), caiff ei chofnodi yn y system Tystysgrifau Digidol a ddarperir gan gyflenwr o'r enw *Advanced Secure Technologies* er mwyn i ni allu cynhyrchu eich tystysgrifau. Mae gan PGW Gytundeb Rhannu Data ar waith er mwyn iddynt allu cael mynediad i'r system ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac uwchraddio.

Fel arall, byddwn yn rhoi gwybod i gyrff dyfarnu eraill h.y. Prifysgol Cymru, Prifysgol Caer, Prifysgol St Mary's a Pearson am eich dyfarniad lle bo'n berthnasol er mwyn cadarnhau eich dyfarniad a chynhyrchu eich tystysgrif.

Digwyddiadau corfforaethol

Os ydych chi'n unigolyn neu'n sefydliad sy'n cael gwahoddiad i ddigwyddiad Prifysgol trwy wahoddiad corfforaethol, cesglir data ar gronfa ddata bersonol y Brifysgol. Mae'r data hwn yn cynnwys eich enw, cyfeiriad (gall amrywio rhwng cyfeiriad busnes a chyfeiriad personol) a manylion cyswllt ac fe'i cesglir fel y gellir anfon gwahoddiadau i'r digwyddiadau hyn atoch chi. Mae'r data hwn yn cael ei gadw tra bydd y sefydliad yn un o randdeiliaid neu gysylltiadau allweddol y Brifysgol. Os ydych yn dymuno tynnu eich enw oddi ar y gronfa ddata digwyddiadau Corfforaethol, anfonwch neges e-bost i: g.beer@glyndwr.ac.uk

Camerâu ar y Corff a CCTV

Mae camerâu **CCTV** yn ffilmio delweddau gweledol o unigolion yn ein hadeiladau a'n cyfleusterau neu o'u cwmpas. Defnyddir camerâu CCTV er mwyn diogelwch eiddo'r Brifysgol ac i atal a chanfod troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Pan fydd y brifysgol yn defnyddio CCTV, bydd y camerâu hyn yn cael eu harwyddbostio yn glir. Gweler adran 6 o'r Hysbysiad hwn am wybodaeth ynghylch ein sail gyfreithiol dros ddefnyddio CCTV.

Mae fideo **camerâu ar y corff** yn gamerâu sydd wedi'u gwisgo gan berson (Staff Diogelwch PGW). Maent fel arfer wedi'u gosod ar ddillad neu ran integredig o wisg ysgol, a byddant **ond** yn cael eu defnyddio pan fydd yn angenrheidiol yn weithredol. Mae Gwasanaethau Diogelwch Glyndŵr wedi ymrwymo i wneud y mwyaf o effeithiolrwydd wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, lleihau trosedd ac anhrefn a chynnal amgylchedd diogel i staff, myfyrwyr a'r cyhoedd sydd ar eiddo'r Brifysgol. Mae delweddau o unigolion sy'n cael eu cipio ar gamerâu ar y corff yn debygol o fod yn ddata personol yn ôl diffiniad deddfwriaeth diogelu data. Gweler adran 6 o'r Hysbysiad hwn am wybodaeth ynghylch ein sail gyfreithiol dros ddefnyddio camerâu ar y corff. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae'r Brifysgol yn defnyddio camerâu ar y corff ar gael ar ein gwefan.

Ymweld â'r Campws - Monitro, Olrhain a Diogelu

Er mwyn ymateb yn y ffordd orau i'n cyfrifoldebau cyfreithiol o dan Iechyd y Cyhoedd, mae'n angenrheidiol i'r Brifysgol gasglu manylion personol amdanoch fel ymwelydd i'n campws. Rydych yn darparu'r wybodaeth hon am reswm penodol a byddwn yn prosesu'r wybodaeth hon er mwyn diogelu eich buddiannau allweddol (Erthygl 6(1)(d)) ac er mwyn perfformio tasg gyhoeddus gan ei fod yn caniatáu i'r Brifysgol gydymffurfio â'n cyfrifoldebau cyfreithiol o ran iechyd y cyhoedd (Erthygl 6(1)(e). Mae casglu'r wybodaeth hon yn angenrheidiol i sicrhau eich diogelwch a'ch llesiant wrth ymweld â'r campws, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, i reoli a'n galluogi i'ch cadw'n ddiogel yn effeithiol. Ni chedwir yr wybodaeth ar y ffurflen am fwy na thri mis a bydd yn cael ei chadw'n ddiogel a'i dinistrio yn defnyddio ein proses gwastraff cyfrinachol.

**4. Sut rydym yn dal eich data**

Rydym wedi rhoi gwybodaeth yn Adran 3 o'r Hysbysiad hwn ynghylch sut rydym yn storio eich data. Gweler y rhestr o gronfeydd data yn Atodiad 1 o'r Hysbysiad hwn am ragor o wybodaeth. Mae Adran 9 o'r Hysbysiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am eich hawl i gael eich anghofio a sut i arfer yr hawl hwnnw.

**5. Y sail gyfreithiol dros brosesu eich data a sut rydym yn defnyddio'r data hwnnw.**

Byddwn yn prosesu eich data personol yn y ffyrdd rydych wedi rhoi eich caniatâd, neu fel arall am ei fod yn angenrheidiol at ddiben cyfreithiol:

<u>Fel rhan o'r berthynas gytundebol rhyngoch chi a'r Brifysgol (er enghraifft mewn perthynas â thocyn rydych chi wedi'i brynu neu ei gael).</u>

Yn y cyswllt hwn byddwn yn defnyddio eich data personol at y dibenion canlynol:

- I gyflwyno'r Digwyddiad rydych wedi cofrestru ar ei gyfer;
- I ohebu â chi ynghylch y digwyddiad, gan gynnwys anfon gwybodaeth atoch cyn ac ar ôl y digwyddiad.

Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn disgwyl rhannu eich data personol gyda:

- Ein hasiantau, contractwyr a darparwyr gwasanaeth (gan gynnwys darparwyr llety, arlwyo, TG, gweminar a gwasanaethau cymorth eraill) lle bo'n berthnasol a lle mae angen iddynt gael y wybodaeth;
- Ein banc sy'n cael manylion talu er mwyn prosesu taliad;
- Cyd-drefnwyr neu bartneriaid sydd ynghlwm â chyflwyno digwyddiad;
- Cyrff neu sefydliadau proffesiynol perthnasol lle mae aelodaeth neu ymlyniad yn effeithio ar eich hawl i fynychu (neu'n arwain at ostyngiad) digwyddiad.
- Lle bo angen, â sefydliadau i reoli a lliniaru lledaeniad ac effaith risgiau'r achosion presennol o'r coronafeirws (COVID-19) i iechyd y cyhoedd (e.e. Monitro, Olrhain a Diogelu).

<u>Yn ôl yr angen ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd</u>

Bydd eich data personol yn cael ei brosesu am fod hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd. Er enghraifft, os ydych yn fyfyriwr yn PGW a bod disgwyl i chi raddio, caiff eich data ei brosesu gan fod hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg gyhoeddus. Mae PGW yn sefydliad addysgol ac yn arbennig mae ei weithgarwch addysgol yn cael ei gynnal er budd y cyhoedd, felly'r dasg gyhoeddus dan sylw fyddai sicrhau eich bod yn graddio ar ôl i chi gwblhau eich addysg gyda ni.

<u>Diddordebau cyfreithlon eraill</u>

Bydd eich data personol hefyd yn cael ei brosesu oherwydd ei fod yn angenrheidiol ar gyfer diddordebau cyfreithlon y Brifysgol neu ddiddordebau cyfreithlon trydydd parti. Bydd hyn bob amser yn cael ei werthuso yn erbyn eich hawliau, diddordebau a'ch disgwyliadau. Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd pan ydym yn prosesu data at ddibenion sy'n berthnasol i ddiddordebau cyfreithlon yn cynnwys:

- Creu bywgraffiadau o fynychwyr neu restr o gynrychiolwyr neu siaradwyr a dosbarthu'r bywgraffiad/rhestr i siaradwyr a mynychwyr (ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae'n briodol cael eich caniatâd);
- Rhannu eich gwybodaeth gyda noddwyr digwyddiad (ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae'n briodol cael eich caniatâd);
- Ffilmio, tynnu lluniau neu recordio digwyddiadau fel arall a chyhoeddi cynnwys o'r

fath ar ein gwefan, ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a fformatau eraill lle na fyddai'n angenrheidiol, yn briodol neu'n ymarferol i gael eich caniatâd penodol (er enghraifft, efallai y byddwn yn gofyn am ganiatâd penodol ar gyfer defnyddiau amlwg neu effeithiol);

- Dadansoddi pwy sy'n mynychu ein digwyddiadau, gan gynnwys er mwyn i ni allu monitro llwyddiant ein rhaglenni allgymorth a deall tueddiadau mewn cyfranogiad (er enghraifft, trwy fonitro cyfranogiad yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol);
- Prosesu adborth er mwyn gwella ansawdd ein digwyddiadau a'n gweithgareddau marchnata;
- Marchnata'r brifysgol a'i digwyddiadau drwy'r post, dros y ffôn, yn y cyfryngau cymdeithasol ac mewn post electronig (ond heb amharu ar eich hawliau o dan y ddeddfwriaeth sy'n rheoleiddio anfon cyfathrebiadau marchnata drwy ddulliau electronig);
- Ymgynghori â'n cynghorwyr proffesiynol lle bo angen cael eu cyngor neu gymorth.

Yn ychwanegol at y sefydliadau a enwir uchod, efallai y byddwn hefyd yn rhannu eich data personol gyda;

- Ein hasiantau a'n contractwyr os ydynt angen eich data personol i gyflawni'r gwasanaethau a amlinellir uchod; a
- Asiantaethau post uniongyrchol sy'n cynorthwyo'r Brifysgol gyda gweinyddu cyfathrebiadau marchnata.

Rhwymedigaethau Cyfreithiol

Bydd eich data personol yn cael ei brosesu er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol y Brifysgol. Er enghraifft:

- Er mwyn canfod ac atal troseddau a chynorthwyo'r heddlu ac awdurdodau cymwys eraill gydag ymchwiliadau;
- Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth treth, dyletswyddau diogelu a cheisiadau gwrthrych am wybodaeth.

Yn y cyswllt hwn, yn ogystal â'r sefydliadau y cyfeiriwyd atynt uchod, efallai y bydd angen i ni, mewn amgylchiadau penodol, rannu eich data personol gyda thrydydd partïon sydd wedi gwneud ceisiadau cyfreithlon o dan y gyfraith diogelu data neu'r gyfraith rhyddid gwybodaeth; yr heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill; CThEM ac archwilwyr allanol y Brifysgol.

Os ydych wedi rhoi caniatâd:

Bydd eich data personol hefyd yn cael ei brosesu gan y Brifysgol os ydych wedi rhoi caniatâd.

Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd ble fyddem yn gofyn am eich caniatâd yn cynnwys lle mae'r gyfraith neu ryw brotocol arall yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol gael eich caniatâd (ar gyfer cyfathrebiadau marchnata neu godi arian penodol) neu os rydym yn teimlo ei fod yn briodol i gael eich caniatâd ar gyfer ein prosesu, yn hytrach na dibynnu ar y sail diddordebau cyfreithlon fel yr amlinellir uchod.

Lle bo hynny'n berthnasol, bydd y caniatâd bob amser yn benodol ac yn wybodus ar eich rhan chi, a bydd canlyniadau rhoi eich caniatad neu beidio, neu dynnu eich caniatâd yn ôl, yn cael eu gwneud yn glir.

## 6. Categorïau arbennig o ddata personol

Yn ychwanegol at y prosesu uchod, gall y Brifysgol brosesu mathau o ddata personol y mae'r gyfraith yn ystyried eu bod yn perthyn i gategori arbennig (megis hil, crefydd, iechyd, bywyd rhywiol neu gofnod troseddol). Gwneir hynny o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Os ydych wedi rhoi eich caniatâd pendant. Gallai enghreifftiau gynnwys os ydych wedi darparu gwybodaeth am eich gofynion dietegol, alergeddau neu os ydych chi'n rhoi gwybod i ni am y gofyniad i gael mynediad penodol i Ddigwyddiad;

- Mewn sefyllfaoedd lle mae prosesu o'r fath yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol (gan gynnwys rhannu gydag yswirwyr a chynghorwyr cyfreithiol y Brifysgol) neu atal neu ganfod trosedd (er enghraifft, canfod gweithredoedd troseddol drwy ddefnyddio CCTV, Camerâu ar y Corff neu roi gwybod am honiadau i'r heddlu;
  - Os yw o fudd hollbwysig i chi wneud hynny ac os nad ydych yn gallu rhoi eich caniatâd, er enghraifft, i roi gwybod i'ch cyswllt brys penodol, y GIG neu wasanaethau brys os byddwch yn sâl neu mewn argyfwng arall.
  - Lle bo angen, rhannu eich manylion cyswllt a gwybodaeth categori arbennig (iechyd) â sefydliadau i reoli a lliniaru lledaeniad ac effaith risgiau'r achosion presennol o'r coronafeirws (COVID-19) i iechyd y cyhoedd (e.e. Monitro, Olrhain a Diogelu). Erthygl 9 (2) (c) mae prosesu "categoriau arbennig" o ddata yn angenrheidiol i amddiffyn buddiannau hanfodol gwrthrych y data neu berson naturiol arall - drwy rannu manylion cyswllt person (au) sydd â symptomau iechyd gwael (e.e. symptomau Covid-19) y gall gwrthrych y data neu berson naturiol arall fod wedi dod i gysylltiad â nhw ar safle'r Brifysgol ac a all ddioddef cyflyrau iechyd sylfaenol. Erthygl 9(2)(g) - budd sylweddol i'r cyhoedd a DPA 2018, Atodlen 1, Rhan 2, paragraff 6 (at ddibenion Statudol a Llywodraeth) Erthygl (9) (2) (i) - dibenion iechyd y cyhoedd a DPA 2018 - Atodlen 1, Rhan 1, paragraff 3 Iechyd y Cyhoedd.

## 7. Trosglwyddiadau data rhyngwladol

Mewn amgylchiadau cyfyngedig, bydd y Brifysgol yn datgelu data personol i drydydd partïon neu'n caniatáu i ddata personol gael ei storio neu ei drin mewn gwledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Er enghraifft, byddwn yn trosglwyddo data i ddarparwyr TG neu ddarparwyr platfform eraill sydd wedi'u lleoli dramor megis MailChimp, Google a Eventbrite.

Dan yr amgylchiadau hyn, bydd eich data personol yn cael ei drosglwyddo dim ond os yw'r trosglwyddiad yn ddarostyngedig i un neu fwy o'r 'mesurau diogelu priodol' ar gyfer trosglwyddo rhyngwladol a bennir gan gyfraith berthnasol, megis:

- Mecanwaith ardystio cymeradwy fel Privacy Shield neu gyfwerth;
- Lle mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gymalau cytundebol sydd wedi'u cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd sy'n darparu mesurau diogelu priodol; neu
- Mae sefyllfa arall yn bodoli lle caniateir y trosglwyddiad o dan y gyfraith berthnasol (er enghraifft, lle mae gennym eich caniatâd pendant).
- Mae trosglwyddiadau data rhyngwladol yn gallu newid, cyfeiriwch at ganllawiau'r ICO.

## 8. Pa mor hir ydym ni'n cadw eich data?

Rydym wedi rhoi gwybodaeth yn Adran 3 o'r Hysbysiad hwn am yr amser y byddwn yn cadw eich data personol mewn cysylltiad â rhai categorïau prosesu data. Mae rhagor o wybodaeth am gadw data personol ar gael gan y Swyddog Diogelu Data a gellir dod o hyd i'r wybodaeth yn yr Atodlen Cadw Data: https://glyndwr.ac.uk/cy/llywodraethu-gwybodaeth/polisiau/

Mae Adran 9 o'r Hysbysiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am eich hawl i gael eich anghofio a sut i arfer yr hawl hwnnw. Sylwer, os yw eich data yn cael ei gyhoeddi yn unol â'r Hysbysiad hwn, nid y Brifysgol sydd bellach yn rheoli'r data hwnnw, ac felly ni ellir arfer eich hawl i gael eich anghofio. Fodd bynnag, gallwch ofyn i'r Brifysgol beidio ag ail-gyhoeddi eich data yn y dyfodol.

## 9. Eich hawliau

Dan GDPR y DU, mae gennych yr hawl i'r canlynol:

- Tynnu eich caniatâd yn ôl os mai dyna yw sail gyfreithiol ein prosesu;
- Cael mynediad i'ch data personol yr ydym yn ei brosesu a chael gwybodaeth am y prosesu hwnnw;
- I gywiro gwallau yn y data personol sydd gennym amdanoch chi;
- I gael eich anghofio, hynny yw dileu eich manylion o'r systemau a ddefnyddiwn i brosesu eich data personol;
- Cyfyngu ar brosesu eich data mewn rhai ffyrdd;
- Cludadwyedd data: lle rydym yn prosesu data yr ydych wedi'i ddarparu i ni, ar sail caniatâd neu fel sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract rhyngom, mae gennych yr hawl i ofyn i ni ddarparu eich data mewn fformat priodol i chi neu reolwr arall; a
- Gwrthwynebu mathau penodol o brosesu data gennym ni.

Noder: nid yw'r rheolau uchod yn absoliwt, a gellir gwrthod ceisiadau os oes yna eithriadau. Gweler https://ico.org.uk am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r hawliau hyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hawliau hyn neu sut ydym yn defnyddio eich data personol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data ar dpo@glyndwr.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth. Os nad ydych yn fodlon â sut mae'r Brifysgol yn defnyddio eich data personol, gallwch gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn https://ico.org.uk.

Atodiad 1: Rhestr o gronfeydd data

Mae'r cronfeydd data a restrir yn amodol ar gyfyngiadau, a dim ond unigolion sydd â chaniatâd sy'n gallu cael mynediad i unrhyw ddata sy'n cael eu cadw ynddynt.

- System Cofnodion Myfyrwyr y Brifysgol
- Cronfeydd data Oracle
- Y system archebu RS2000
- Systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM)
- Cronfeydd data mewnol eraill y Brifysgol
- System Rheoli Hamdden Sportsoft

| **Adolygwyd:**<br><br>**Awst 2020** | **Awdur:**<br>Leonna Messiter | **Ychwanegiadau:**<br>Yn ymwneud â chasglu data personol a lle bo angen, rhannu data personol â thrydydd parti (gan gynnwys categori arbennig - yn ymwneud ag iechyd) at ddibenion Monitro, Olrhain a Diogelu. |
|---|---|---|
| **Ebrill 2022** | Leonna Messiter | Camerâu ar y Corff<br>GDPR wedi'i ddiweddaru i GDPR y DU<br>Diweddarwyd yr adran Trosglwyddo Rhyngwladol i adlewyrchu<br>yn amodol ar newid ac i gyfeirio at ganllawiau ICO. |

| | | |
|---|---|---|
| Mehefin 2022 | Leonna Messiter; Gabby Gardner | Adran 3 Pa gategorïau o ddata personol sy'n cael eu casglu wrth raddio - diweddarwyd y ddolen i lawrlwytho "Cais i atal manylion personol rhag cael eu cyhoeddi" ac ychwanegwyd y **gellir** cyhoeddi manylion enillwyr gwobrau yn rhaglen y seremoni raddio.<br><br>Adran 7 Trosglwyddiadau data rhyngwladol – diweddarwyd Mecanwaith ardystio cymeradwy i ddileu "fel Privacy Shield neu gyfwerth". |